# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 2

DIGARTREFEDD

## PENNOD 2

CYMORTH I BOBL SY'N DDIGARTREF NEU O DAN FYGYTHIAD O DDIGARTREFEDD

*Darpariaethau atodol*

### 96 Cydweithredu mewn achosion penodol yn ymwneud â phlant

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo gan awdurdod tai lleol reswm i gredu y gallai ceisydd y mae person o dan 18 oed yn preswylio gydag ef fel arfer, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef—

- (a) bod yn anghymwys i gael cymorth,
- (b) bod yn ddigartref ac nad yw dyletswydd o dan adran 68, 73 neu 75 yn debygol o fod yn gymwys i'r ceisydd, neu
- (c) bod o dan fygythiad o ddigartrefedd ac nad yw dyletswydd o dan adran 66 yn debygol o fod yn gymwys i'r ceisydd.

(2) Rhaid i awdurdod tai lleol wneud trefniadau i sicrhau—

- (a) bod y ceisydd yn cael ei wahodd i gydsynio i atgyfeirio'r ffeithiau hanfodol am ei achos i'r adran gwasanaethau cymdeithasol, a
- (b) os yw'r ceisydd wedi rhoi'r cydsyniad hwnnw, bod yr adran gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei hysbysu am y ffeithiau hynny ynghyd â phenderfyniad dilynol yr awdurdod mewn perthynas â'i gais.

(3) Nid oes unrhyw beth yn is-adran (2) yn effeithio ar unrhyw bŵer ar wahân i'r adran hon i ddatgelu gwybodaeth sy'n ymdrin ag achos y ceisydd i'r adran gwasanaethau cymdeithasol heb gydsyniad y ceisydd.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 96. (See end of Document for details)*

(4) Rhaid i gyngor sir neu fwrdeistref sirol wneud trefniadau i sicrhau, pan fo'n penderfynu fel awdurdod tai lleol bod ceisydd yn anghymwys i gael cymorth, wedi dod yn ddigartref yn fwriadol neu wedi dod o dan fygythiad o ddigartrefedd yn fwriadol, fod ei adran dai yn rhoi'r cyfryw gyngor a chynhorthwy i'r adran gwasanaethau cymdeithasol ag y caiff yr adran gwasanaethau cymdeithasol ofyn yn rhesymol amdanynt.

(5) Yn yr adran hon, mewn perthynas â chyngor sir neu fwrdeistref sirol—

ystyr "yr adran dai" ("*the housing department*") yw'r personau hynny sy'n gyfrifol am arfer ei swyddogaethau fel awdurdod tai lleol;

ystyr "yr adran gwasanaethau cymdeithasol" ("*the social services department*") yw'r personau hynny sy'n gyfrifol am arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan Ran 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 96 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 96 mewn grym ar 27.4.2015 gan O.S. 2015/1272, ergl. 2, **Atod. para. 47**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 96.